# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Ebrill 2023 – Cyfrol 8– Rhifyn 7

## Neges galonogol gan Jimmy McNally




Flynyddoedd lawer yn ôl, cynigiodd Gwyn Langford-Jones a'i gyfeillion arian i mi i brynu offer i helpu gyda sesiynau pêl-droed y plant. Byddwn bob amser yn gwrthod yn gwrtais, gan mai fy menter i fy hun roedd hi a fy newis i oedd helpu'r plant i chwarae pêl-droed, ac roeddwn i eisiau bod yn hunangynhaliol. Byddai Gwyn yn dweud wrtha i fy mod i'n ystyfnig, a byddai unrhyw un sy'n fy adnabod yn cytuno. Roedd yn llygad ei le.

Yn anffodus, bu farw Gwyn y llynedd. Heb yn wybod i mi, ei ddymuniad ers tro oedd i'r arian a gasglwyd yn ei angladd gael ei drosglwyddo i sesiynau pêl-droed y plant. Ffoniodd Carolyn, ei weddw, fi ac esbonio hyn i mi ac fe ges i dipyn o syndod. Fe wnaethon ni  gytuno ei fod wedi ennill yn y diwedd, gan na fyddwn i byth yn mynd yn groes i'w ddymuniad.

Rydw i wedi dechrau buddsoddi'r arian yn y plant ac maen nhw eisoes wedi gwisgo eu bibiau newydd ac wedi defnyddio pêl newydd sbon.

Ni fydd yr arian yn cael ei wastraffu, a dim ond pan fo angen y caiff ei ddefnyddio. Os daw'r diwrnod pan fydd yn rhaid i mi roi'r gorau i hyfforddi plant, bydd yr holl arian ac offer sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i fy olynydd.

Yn y llun uchod mae sêr y dyfodol – Charlie, Ollie, Alfie a Tomos.

Diolch i bawb a gyfrannodd yn angladd Gwyn. Diolch i'w weddw, Carolyn. Yn olaf – diolch, Gwyn, byddaf bob amser yn gofalu bod pêl-droedwyr ifanc y pentref yn cofio amdanoch.

**Jimmy McNally**

**Mae rhagor o hanes Jimmy a Chlwb Pêl-droed Llandyrnog ar dudalen 13**

**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o'r *Llais* o swyddfa'r post, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

# Pytiau newyddion y pentre

Roedd yn drist clywed am farwolaeth Richard Williams Fforddlas Isaf, ar ôl ychydig ddyddiau yn yr ysbyty. Cydymdeimlwn ag Ann a'r teulu. Bu Richard yn ffermio ger Caerwys, ond lled-ymddeolodd i Fforddlas Isaf yn y 90au a mwynhaodd redeg menter lai am ryw ugain mlynedd.

Dymuniadau da i Carolyn Langford-Jones am wellhad buan.

Llongyfarchiadau i...

... Karen Messham, Tŷ Capel Dyffryn ar ddod yn nain i Tirion Terry (Teddy) Green, mab i Lauren a Dom;

... Dave ac Emma Bass, Tŷ Coch, ar enedigaeth eu mab, Oliver;

... Mabon Evans, Leusa and Mati Williams, ac Anna Griffith ar eu llwyddiant mewn cystadlaethau unigol yn eisteddfod sir yr Urdd. Byddan nhw'n mynd yn eu blaenau, ynghyd ag eraill o'r cyffiniau sydd mewn partïon, i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri ddiwedd mis Mai a dechrau mis Mehefin.

**...** Ben a Jessica Dowell ar eu priodas yn Sydney, Awstralia. Mae Ben yn fab i Rob Dowell, Berth Glyd.




**DBP** Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**


## Hwb Llandyrnog

**Pafiliwn Cae Nant**

Danteithion dydd Mercher
Dydd Mercher 1af a 3ydd bob mis
10.30am – 4pm

Diodydd poeth ac oer, cawl, cacennau
Lle i'r plant chwarae dan do
Lle chwarae y tu allan
Campfa werdd

Croeso cynnes i bawb o bob oed
Arhoswch am faint bynnag y mynnoch
(*Yn dechrau eto pan fydd gwres yn y Pafiliwn neu'r tywydd yn cynhesu – p'run bynnag sy'n digwydd gyntaf*)

Byddem yn ddiolchgar am gynigion o help ar y dyddiau hyn – dim ond ychydig oriau.
Cysylltwch â Carolyn Langford Jones:
clangfordjones@gmail.com

# Neges y Pasg gan ein hoffeiriad



Ddechrau Ebrill fel hyn, mae Wythnos y Pasg bron ar ein gwarthaf. Amser i'r Cristion fyfyrio'n ddwys ar bob cyfnod o weinidogaeth Crist wrth arwain at y Pasg a'r atgyfodiad. Cofio'r gorfoledd o ddarganfod nad oedd Iesu bellach yn gorwedd yn y bedd lle rhoddwyd ef ar ôl ei groeshoelio.

Bywyd newydd – dyna thema dathliadau'r Pasg, ac mi fyddwn ni'n dathlu'r bywyd newydd a gynigir i bob un ohonom wrth groesawu Pasg 2023. Bydd gwasanaeth wrth fynedfa'r castell yn Ninbych yn lle delfrydol i gydaddoli gydag aelodau eglwysi a chapeli'r dref i foli Crist sy'n rhoi bywyd yn ei gyflawnder i ni.

Yn y Gwanwyn, gallwn ddathlu ynghyd wrth weld bywyd newydd ym mhobman. Ar ôl ysgrifennu'r neges hon, bydda i'n paratoi i fynd i Jeriwsalem i dreulio amser mewn encil yn Jeriwsalem.

Bûm wrthi yn fy nhro neithiwr yn bwydo babi bach sydd yn ein gofal ar ran Cyngor Sir Ddinbych. Wrth reswm, ni allaf enwi'r babi, ond mae'r fechan wedi dod i batrwm bwydo bob tair awr bellach. Wrth reswm, mae angen digonedd o ofal a chariad arni adeg bwydo, chwalu gwynt a newid clwt. Wrth iddi bwyso ar fy ysgwydd i chwalu gwynt, gallwn ymdeimlo â gwyrth bywyd ei hun, a'r addewid o fywyd cyflawn i ddod, yn hymian yn dyner drwy 'mywyd i. Mae'r gallu ganddi hi i fyw yn y presennol – gallu sy'n gwanhau bob blwyddyn wrth i ni dyfu'n hŷn.

Pan fyddaf yn cyrraedd Jeriwsalem, gobeithio y caf eto deimlo'r bywyd newydd a brofais pan es i yno gyda grŵp o bererinion fis Ionawr 2017. Erbyn i chi ddarllen hwn, bydd newid cyfeiriad allweddol wedi dod i'm bywyd. Byddaf yn y broses o ailgyfeirio fy mywyd drwy'r Ysbryd Glan, a phrofi presenoldeb Duw a'i fendithion yn y ddinas sanctaidd lle daeth i'n plith i fyw.

Fy ngweddi drosoch fydd i chithau hefyd deimlo presenoldeb y creawdwr haelionus, ac fel Cristion, deimlo gwefr dydd yr atgyfodiad a'i arwyddocâd. Os nad ydech chi'n credu yn Iesu, ga i ofyn i chi ystyried y posibilrwydd o anghofio am eich diffyg cred – cael cipolwg uwchben y rhwystrau rydech chi wedi eu gosod. Rydw i'n addo i chi y cewch chi oleuni newydd fydd yn dangos hyfrydwch anfesuradwy y bywyd newydd.

Boed i chi gael Pasg Hapus ac Ebrill bendithiol.

*Martin Pritchard*
*Offeiriad ardal genhadu Dinbych*

## Bore coffi

**AT GANOLFAN TRIN CANSER YSBYTY GLAN CLWYD**



**Neuadd y Pentre, Llandyrnog**
**Dydd Sadwrn, 22 Ebrill**
**10.00–11.15**

Derbynnir yn ddiolchgar roddion tuag at y stondin cynnyrch cartref

**Croeso cynnes i bawb!**

# Danteithion i de

Rwy newydd ddod ar draws hen lyfr ryseitiau (o'r 1930au i bob golwg, yn ôl y lluniau sydd ynddo) a gyhoeddwyd gan wneuthurwr brand enwog o flawd. Wrth gwrs, mae pob rysáit yn y llyfr yn gofyn am gynhwysion o'r brand arbennig hwnnw ac mae'r cyflwyniad yn y llyfryn yn eich rhybuddio rhag defnyddio dim byd arall, oherwydd 'nid yw'n bosibl gwarantu'r canlyniadau'. Ond dwi'n amau a yw'r brand ar gael heddiw, felly bydd yn rhaid i chi fentro.

Mae'r cyngor am sut i weld pa mor boeth yw'ch popty os nad oes gennych thermomedr arno yn ddiddorol iawn – taenwch flawd ar hambwrdd pobi a'i roi yn y popty am dair munud. Os yw'r blawd yn frown euraid, mae eich popty yn 'boeth iawn' ac yn addas i wneud sgons. Os yw'n felyn dwfn, mae'n bopty 'cymedrol' ac yn addas i wneud cacen ffrwythau. Dwi mor falch 'mod i'n gallu gweld tymheredd fy mhopty!

Dyma rysáit syml am gacen jam.

(cynheswch eich popty modern i 180 °C os oes thermostat arno!)

**Cynhwysion**

2 wy

Yr un faint â phwysau'r wyau o flawd codi, menyn a siwgr mân

**Dull**

Curwch y siwgr a'r menyn nes byddan nhw'n lliw golau, wedyn curwch yr wyau i'r cymysgedd. Cymysgwch y blawd iddo'n ofalus.

Rhannwch y cymysgedd yn gyfartal rhwng dau dun sbwng crwn 8 modfedd, a'i bobi mewn popty cymedrol am 20 munud.

Pan fyddan nhw wedi oeri, glynwch y ddwy gacen yn ei gilydd gyda jam a sgeintiwch siwgr eisin dros y gacen orffenedig.

**Gwen Butler**

GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

01745 815141
07808970364

E-bost: evansautoclinic@btconnect.com

J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Ysgol Bryn Clwyd

Roedd y plant i gyd yn edrych yn wych ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Llyfr. Ymunodd y disgyblion iau â'r babanod mewn parau i fwynhau llyfr.



Cafodd y plant gwmni Mr Evans, Anti Bet a Mrs Foulkes a roddodd hanes y pentre i ni a'u profiadau nhw o fynd i'r ysgol gynradd yn Llandyrnog pan oedden nhw'n blant.

Roedd hi'n fis prysur rhwng pob peth – aeth y disgyblion iau i'r sw mynydd ym Mae Colwyn, daeth yr artistiaid Catrin Williams ac Eleri Jones i'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion, dysgodd y plant sut i chwarae gemau ar y buarth yn Gymraeg gyda Llinos o'r Urdd, a rhoddodd Jonny Baxter weithdy ar ddrymio samba.

Rydyn ni'n hynod falch o bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Bryn Clwyd. Roedd y cystadlaethau celf yn wych a'r canu a'r adrodd ar lwyfan coffa Mrs Morris yn ardderchog. Rydyn ni'n siŵr y byddai hi wedi bod yn falch iawn. Da iawn, bawb!




Hefyd, buodd rhai o'r plant yn diddanu'r Trefoil Guild yn yr Ystafelloedd Coco.



# Pob dymuniad da i Richard

Mae Richard Monteiro wedi'i benodi'n bennaeth Ysgol Pen y Bryn, Bae Colwyn. Rydyn ni mor falch drosto fod ei waith ardderchog fel pennaeth yn cael ei gydnabod wrth i'w yrfa fynd yn ei blaen, er ein bod yn drist y bydd yn ein gadael.

Dywedodd Richard, 'Rydw i wedi bod yn bennaeth Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor am wyth mlynedd erbyn hyn. Cyn hynny roeddwn yn athro dosbarth ac wedyn yn bennaeth cynorthwyol yn Ysgol Gellifor am chwe blynedd cyn hynny.'

Mae Richard wedi bod yn flaenllaw ym mywyd Llandyrnog yn ystod ei gyfnod fel Pennaeth yma a dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd.

# Nentydd bach Llandyrnog a Llangwyfan

Mae nifer o nentydd bychain yn llifo ar draws y ddau blwyf o Fryniau Clwyd i lawr i'r Afon Clwyd. Fel rhywun sydd wedi ei fagu'n lleol, dwi'n teimlo'n euog nad wyf yn gwybod mwy am hanes ac enwau'r nentydd yma. Wedi edrych ar hen fapiau, ychydig iawn sydd yn cael eu henwi – mae'n reit siŵr yn yr oes a fu bod enwau iddynt ond bod y rhain wedi mynd yn angof.

Dwi'n cofio teithio yn Awstralia sawl blwyddyn yn ôl a sylwi bod pob pont ag enw'r afon (*creek*) arni'n amlwg i bawb – trist na fyddai'r un trefniant wedi bodoli yma yn y gorffennol!

Beth bynnag am hynny, dyma ychydig sylwadau ar ein nentydd lleol.

Wrth deithio o'r De i'r Gogledd (Llangynhafal i Aberchwiler), y nant gyntaf i'w chroesi yw'r afon fechan wrth Fferm y Pentref. Mae hon yn llifo o Fryniau Clwyd heibio'r Pentref i lawr heibio'r Seler at y Gables, cyn cyrraedd yr Afon Clwyd wrth Ddôl Felin. Tybed yn yr oes y fu, oedd yna felin ddŵr yma – yn yr hen amser, roedd y rhain yn eitha niferus ar lan nentydd bychain.

Rydym wedyn yn croesi'r ail Nant – yr afon Geinws – wrth yr Hen Efail yn Groes Fawr. Mae llif y dŵr yn codi'n agos at Siglen Uchaf yn ymyl troed Moel Arthur ac yna yn rhedeg i lawr at Groes Fawr, ymlaen heibio'r hen Fragdy at Pentre Felin. Ydi, mae'n arwyddocaol bod bragdy a melin wedi bod ar lan yr afon.

Mae'r llifiant wedyn yn rhedeg ar draws y caeau i lawr heibio Glanrafon yn y pentre, ac yna ymlaen yn agos iawn at yr hen Gapel Bedyddwyr (lle roedd digon o ddŵr ar gael ar gyfer y bedyddio ers llawer dydd!), Tŷ Capel Isa heddiw.

Dyma ni eto ar draws melin arall yn Felin Isaf cyn i'r afon Geinws lifo i'r afon fawr.

Pa dystiolaeth sydd ar gael am enw yr afon? Wel, mi roedd fy Ewythr John yn byw yn Gwynfa, Groes Fawr a fy Nhaid a Nain wedi ymddeol drws nesaf i Fron Wen. Mwy nag unwaith pwysleisiodd fy ewythr – cofia, enw'r afon yma ydi'r afon Geinws!

Mae'r drydedd nant yn rhedeg lawr heibio croesffordd Llangwyfan, wedi ei geni uwchben Pont Llundain ac yn llifo heibio Rhiwbebyll Isaf a'r White House cyn ymuno â Nant Seimon yn agos at yr Hen Reithordy. Mae Nant Seimon yn rhedeg o Goed Seimon uwchben Llangwyfan heibio i'r Eglwys, ymlaen heibio'r hen ffatri laeth cyn ymuno â'r Afon Geinws ac yna ymlaen at waelod y dyffryn.

Wedi edrych ar sawl map dros y dyddiau diwethaf o'r holl nentydd yma dim ond Nant Seimon sydd yn cael ei henwi ar fapiau – tybed paham?

Wrth i ni deithio i gyfeiriad Aberchwiler rydym yn croesi'r nant nesaf rhwng ffermydd Bancar a'r Wern. Ar fynydd Fron Gelyn mae ffynnon wrth ochor y Ffordd Rufeinig gyda hen danc dŵr du enfawr gafodd ei godi dros saith deg mlynedd yn ôl. Pwrpas y tanc oedd cyflenwi digon o ddŵr i Ysbyty Llangwyfan a'r tai o gwmpas. Erbyn heddiw mae'n glir fod y tanc wedi gweld dyddiau gwell gyda Bwrdd Dŵr Cymru yn ateb y galw am ddŵr glân yn yr ardal.

Beth bynnag am hynny, dyna ydi tarddiad y nant fechan ddienw sydd yn rhedeg i lawr caeau Fron Gelyn a'r coed oddi tanynt at Penllwyn. Dyna ble mae rhywbeth diddorol yn digwydd – mae'r afon yn diflannu lawr twll yn y graig ac yn dod i'r wyneb eto bron chwarter milltir i ffwrdd y tu draw i Goed Coppi Fancar. Craig galchfaen garbonifferaidd sydd oddi tani, a dros y canrifoedd mae'r dŵr wedi dechrau diferu drwy'r graig galchfaen, a dros amser hir iawn wedi ffurfio sianel i'r nant. Pan mae'r nant yn llawn llif, mae'n werth sefyll a gwrando ar y dŵr yn diflannu i mewn i'r graig.

Pan ddaw i'r wyneb eto wrth Coed Coppi Fancar, mae'r mant yn rhedeg lawr am Y Wern a Bancar cyn croesi'r ffordd lawr heibio'r Gilfach a Glan y Wern, ac yna ymlaen i afon Clwyd.

Mae'r clwstwr bychan o nentydd wedyn yn amlwg yn ardal Fron Fanadl a Fron Vox – rhai




yn diflannu i'r galchfaen oddi tanynt, yn dod i'r wyneb wrth Gader Goch ac yn rhedeg lawr at Nant Lewis Alun a Tŷ Brazier cyn dod o hyd i'r afon Clwyd.

Mae yna lawer mwy hoffwn wybod am y nentydd bychain yma – dim ond dau o'r enwau sydd yn gyfarwydd i mi. Tybed oes mwy o enwau ar gael?

Oes yna hanesion gennych chi fyddai'n ddiddorol i'n darllenwyr – ydych chi'n cofio sôn bod y nentydd bychain yma rywdro wedi gorlifo? Fe gofiaf am ddau achlysur pan lifodd dŵr i mewn i'r White House a hefyd i'r Efail yn Groes Fawr gan achosi dipyn o ddinistr.

Fe gofiaf weld pysgod bach (*minnows*) yn aml yn y nentydd, ond yn anffodus does dim wedi bod yn amlwg ers blynyddoedd. Roedd y crëyr glas yn arfer galw heibio'n aml i bysgota am ginio ond yn anffodus, gyda diflaniad y pysgod, bach does dim iddo ar y fwydlen.

Tybed pa hanes sydd gennych chi am Nentydd yr Ardal?

**Rod Williams**

BLUE HAND MOWERS

**Blue Hand Mowers**

Repair and servicing of all garden machinery

Lawn mowers and lawn tractors
Chain saws
Hedge cutters
Strimmers
Disc cutters
Quad bikes
Leaf blowers
Hand tools

Collection and delivery service available

Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google
www.bluehandmowers.co.uk
enquiries@bluehandmowers.co.uk
☎0775 20 35 462

# Capel y Dyffryn

**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 2 Ebrill | 9.45 | Parch. Andras Iago |
| 9 Ebrill | 10.00 | Oedfa'r Fro – Sul y Pasg |
| 16 Ebrill | 11.00 | Parch. Aneurin Owen |
| 23 Ebrill | 9.45 | Parch. Andras Iago |
| 30 Ebrill | 9.45 | Parch. Anna Jane Evans |

**Y Gymdeithas** Cynhaliwyd Swper Gŵyl Ddewi i ddiweddu rhaglen y tymor. Ar ôl swper hyfryd, croesawyd Sioned Webb ac Arfon Gwilym i ddiddanu'r gynulleidfa gyda chaneuon traddodiadol Cymreig. Cafwyd noson ardderchog yn eu cwmni.

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn | 1af | Grŵp crefftau 10am–4pm<br>Bingo (CPD Henllan) 6–9pm |
| Sul | 2il | Llan Llanast 3.30–5pm |
| Llun | 3ydd | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mercher | 5ed | Cyfarfod pwyllgor y sioe flodau 7pm |
| Llun | 10fed | Parti pen blwydd 11am |
| Llun | 17eg | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |
| Sadwrn | 22ain | Bore coffi: Uned Trin Canser Ysbyty Glan Clwyd, 10am |
| Llun | 24ain | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |

*I logi Neuadd y Pentre, ffoniwch*
*Mrs Wyn Wilson ar 01824 790447.*

# Y Gymdeithas Seryddiaeth

Bydd cyfarfod nesaf Cymdeithas Seryddiaeth Llandyrnog nos Iau, 6 Ebrill ym mwyty'r Ceffyl Gwyn, Hendrerwydd (www.whitehorserestaurant.co.uk). Rydym wrthi'n cynllunio pwnc i'w drafod yn y cyfarfod, a chyn gynted ag y bydda i'n gwybod, byddwch chithau hefyd.

Byddai'n dda clywed gennych os oes gennych unrhyw syniadau am destunau trafod. A oes gennych chi unrhyw ddiddordebau penodol ym maes seryddiaeth yr hoffech chi wybod rhagor amdanyn nhw? Oes gennych chi brofiadau perthnasol yr hoffech chi eu rhannu? Rhowch wybod i mi drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu anfonwch e-bost at astronomyjohn@gmail.com.

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 3ydd | Trefoil Guild 2pm |
| Mawrth | 4ydd | Clwb Llyfrau 10am<br>Sefydliad y Merched, 7–9pm |
| Mercher | 12fed | Undeb y Mamau 2pm |
| Mawrth | 18fed | Clwb Llyfrau 10am<br>Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mercher | 19eg | Tuesday Club 2pm |
| Llun | 24ain | Clwb cwiltio, 7–9pm |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

# Bin sbwriel

Yn groes i'r newyddion da sydd fel arfer yn y *Llais*, rhaid tynnu sylw at hyn – dyma'r ail dro mae gwastraff bwyd a gwastraff y dylid ei ailgylchu wedi'i adael yn yr arhosfan bysiau ger cylchfan y Waen. Dylai gwastraff fel hyn fynd i fin oren neu las a'i adael allan ar ddydd Mawrth i'w gasglu gan weithwyr Cyngor Sir Ddinbych, yn hytrach na magu chwaeth llwynogod y fro at pizza.



# Newyddion o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

Cynhaliwyd cyfarfod 'Hyrwyddwyr AHNE' yn Llysfasi ym mis Mawrth. Yn bresennol roedd cynrychiolwyr cynghorau cymuned ledled Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Roedd y cyfarfod yn ddiddorol iawn ac yn cynnwys cyflwyniadau ar:

* y posibilirwydd o roi statws Parc Cenedlaethol posibl i'r ardal hon, sef y tro cyntaf i barc cael ei ddynodi ers 60 mlynedd;
* newyddion diweddaraf y Fenter Awyr Dywyll sydd wedi bod yn casglu data ar effaith llygredd golau ar fywyd gwyllt (mae 60% o adar ac anifeiliaid yn dibynnu ar awyr dywyll i oroesi, mae golau llachar yn effeithio pan fyddan nhw'n deor, yn hela, yn deffro ac yn cysgu. Mae hyd yn oed yn newid patrymau mudo gan fod adar sy'n bwriadu mynd tua'r gorllewin yn camgymryd dinasoedd yn y dwyrain sydd wedi'u goleuo'n llachar am fachlud haul). Mae llygredd golau wedi cynyddu 400% yn y 25 mlynedd diwethaf ac mae'n dal i gynyddu 10% y flwyddyn ledled y byd. Dim ond 2% o'r Deyrnas Unedig sy'n profi awyr gwirioneddol dywyll ond mae awyr dywyll dros 92% o Fryniau Clwyd, ac felly'n addas i'w dynodi'n ardal 'Awyr Dywyll Ryngwladol.' Rhaid i bob cais cynllunio o fewn yr AHNE bellach gydymffurfio â chanllawiau cynllunio atodol ar y pwnc hwn. Mae tîm Awyr Dywyll yn monitro lefelau golau mewn cymunedau a gall gynghori ar sut i leihau'r effaith a rhoi gwybodaeth am oleuo 'da' a 'drwg'.
* 'Tîm y Tanau Gwyllt'. Sefydlwyd y grŵp hwn yn dilyn y tân dinistriol ar fynydd Llantysilio yn 2018 a gymerodd 60 diwrnod i'w ddiffodd oherwydd bod y mawn o dan y ddaear yn parhau i losgi. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn gweithio'n galed, yn arbrofi gyda gwahanol ddulliau diffodd tân (dan reolaeth). Mae wedi sefydlu mai'r allwedd i atal trychineb o'r fath yw rheoli tanwydd tirwedd trwy leihau uchder y grug mewn clytiau (gallwch weld y gwaith hwn ar Fryniau Clwyd). Mae hyn yn creu toriad sy'n rhoi cyfle i'r diffoddwyr reoli tân.
* prosiect a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri o'r enw Ein Tirlun Darluniadwy sydd yn cwmpasu ardal siâp triongl o Gorwen i Bontcysyllte, i Gledrid ger y Waun. Bydd y prosiect hwn yn cyflwyno, o fis Ebrill tan fis Tachwedd, fws gwennol trydan i fynd ag ymwelwyr i'r holl atyniadau lleol o faes parcio canolog er mwyn defnyddio llai o geir yn yr ardal.

  Bydd digwyddiad yng Nghastell Dinas Bran ar 1af Gorffennaf a fydd yn cynnwys atgynhyrchiad o gamera obscura Fictoraidd. Dangoswyd ffilm gyfrifiadurol ragorol i ni sy'n hedfan y gwyliwr drwy dirwedd Dyffryn Dyfrdwy o'r gorffennol i'r presennol – o'r ymsefydlwyr cynnar, datblygiad Castell Dinas Bran ac Abaty Glyn y Groes, i dreftadaeth ddiwydiannol Thomas Telford a chyfraniad artistig Merched Llangollen. Mae hwn ar gael i'w weld ar www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk

Mae nifer o brosiectau ar y gweill gyda llawer o gyfleoedd i wirfoddoli – os oes gennych ddiddordeb mewn unrhyw beth perthnasol, o gyfri gylfinirod i adeiladu llwybrau, mae'r manylion ar wefan yr AHNE.

**Gwen Butler**

Cyn bo hir bydd Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd yn cael ei dyrchafu'n Barc Cenedlaethol, gan ddod â chynnydd yn ei statws a'r arian y bydd yn ei gael.

Penderfynwyd y bydd yn rhaid i bob cerbyd yn y Parc Cenedlaethol Newydd fod yn un trydan, gyda wardeiniaid yr awdurdod lleol yn arwain gyda'u cerbydau 4x4 newydd trydan. Bydd yn rhaid i bawb sy'n byw o fewn ffiniau'r AHNE presennol gyfnewid eu cerbydau disel neu betrol erbyn 2024, a bydd rhaid i ymwelwyr defnyddio cerbydau trydan ynddi o 2025 ymlaen neu gael dirwy. Bydd bysus gwennol i'w gweld yn rheolaidd yn y cylch i liniaru'r sefyllfa.

Y bwriad yw cynyddu nifer y pwyntiau gwefru a chynnig grantiau i drigolion, felly arhoswch ychydig cyn prynu car arall.

# Dod i adnabod... Betty Williams, Sŵn y Nant



Cefais fy magu yn Sychdyn. Galwyd Dad i'r fyddin, felly bu Mam a fi yn byw gyda Taid a Nain. Es i i ysgol Sychdyn a mwynhau yno yng nghwmni llawer o ffrindiau. Treuliais y rhan fwyaf o fy amser gyda Taid – roedd yn mynd i bobman ar ei feic tair olwyn ac roedd ganddo sedd ar y cefn i mi. Pan oeddwn yn chwe blwydd oed, ymunais â pharti adloniant. Aethon ni o gwmpas y pentrefi, yn difyrru cynulleidfaoedd. Es i i Ysgol Ganolog yr Wyddgrug wedyn, lle roeddwn i wrth fy modd gyda dawnsio gwerin, gymnasteg a chrefftau.

Pan adewais yr ysgol cefais swydd yn y fferyllfa ar Stryd Fawr yr Wyddgrug. Doedd tabledi ddim yn dod wedi'u pacio ymlaen llaw y dyddiau hynny – roedden nhw'n rhydd mewn jariau mawr. Roedd yn rhaid i mi eu cyfri ar gyfer y presgripsiynau ac ysgrifennu'r cyfarwyddiadau ar y blychau â llaw.

Roedden ni'n cael dawnsfeydd yn ein pentref bob mis – dyna lle wnes i gyfarfod fy ngŵr, Bob. Roedd yn gweithio ar fferm ar Ffordd Sealand, y tu allan i Gaer. Pan briodon ni, roedd gennym ni fwthyn ar fferm ond dim ond am dri mis y buon ni'n byw yno cyn i ni gael tyddyn gan y cyngor.

O fewn ychydig fisoedd roedd gennym ddeg o wartheg, felly dechreuon ni rownd laeth, gan ein bod yn byw yn agos at wersyll yr Awyrlu a Garden City. Cefais rownd ar Ffordd Sealand. Ar ôl pum mlynedd cawson ni dyddyn mwy yn yr Hob, ger Wrecsam, ond fe wnaethon ni gadw'r rowndiau llaeth. Arhosais gartref, yn golchi'r poteli a'u llenwi ar ôl godro.

Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, daeth fferm ar werth yn Sychdyn. Cyn i mi droi, roedd Bob wedi prynu'r fferm ac roedden ni'n symud eto. Ond roedden ni'n methu symud i'r fferm newydd am chwe mis – roedd clwy'r traed a'r genau wedi dod i'r fro a doedd yr un anifail byw yn cael symud.

Ymhen hir a hwyr, symudon ni i'n fferm newydd, Penucha'r Mynydd. Ar ôl rhyw flwyddyn, ces i rownd laeth yn y pentref am bedair blynedd nes i'r rheolau newid a'r holl laeth amrwd yn gorfod cael ei basteureiddio. Gwerthon ni'r rowndiau llefrith a phrynu fferm fynydd yn Llanfynydd. Roedd ganddi sied fawr iawn a oedd yn cadw'r holl dda byw. Dim rhagor o laeth a photeli llefrith – magu lloi ac yn wyna oedd ein byd ni erbyn hyn. Yn Llanfynydd ymunais am y tro cyntaf â Sefydliad y Merched – roedden nhw'n grŵp gwych. Bues i'n helpu gyda'r clwb merlod hefyd, ac roedd hynny'n llawer o hwyl. Roedd Llanfynydd yn bentref cyfeillgar iawn. Roedd ein sied fawr yn wych ar gyfer dawnsfeydd ysgubor. Buom hefyd yn dathlu Jiwbilî Arian y Frenhines gyda pharti gwisg ffansi – cawsom i gyd amser ardderchog.

Un penwythnos penderfynon ni fynd i Aberaeron yng ngorllewin Cymru am wyliau. Ymhen dim, roedden ni'n edrych ar ffermydd yn Sir Aberteifi, fel yr oedd bryd hynny. Ie, rydych chi'n iawn – symud eto, i Ben-ffin, Glynarthen, ychydig oddi ar ffordd yr arfordir. Dyma ble dechreuodd fy ngŵr fridio ceffylau. Ar y dechrau roedd gennym ni geffylau gwedd, wedyn ceffylau hela. Doedd gan ein mab ddim diddordeb mewn ffermio, felly fe werthon ni'r fferm, symud i dyddyn a dechrau busnes yn gwerthu porthwyr gwartheg a defaid. Roedd

Bob yn dal i fridio ei geffylau.

Erbyn hyn roedd fy mab yn priodi ac roedd angen rhywle i fyw arno. Felly symud bu rhaid eto. Roedd popeth yn mynd yn dda ond tra oedd Bob yn y sioe geffylau ac arwerthiant ym Malvern, cafodd drawiad ar y galon. Bu yn yr ysbyty yng Nghaerwrangon am tua deng niwrnod. Nawr roedd hi'n adeg ymddeol. Gwerthwyd y ceffylau, cymerodd fy mab y busnes drosodd a symudon ni i dyddyn arall eto. Dechreuais i fridio defaid Zwartbles fel hobi, un lwyddiannus iawn. Fe wnes i eu magu am 20 mlynedd.

Ar ôl i fy ngŵr farw, symudais i Landyrnog o Lan-non i fod yn nes at fy nheulu.

# Sefydliad y Merched

Mwynhawyd y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Zoe Henderson am ei rôl fel Uchel-Siryf Clwyd, ynghyd â hanes y swydd.

Enillydd y raffl oedd Iona Pierce, ac roedd yr aelodau wrth eu bodd yn bwyta cacennau cri cartref Iona gyda phaned o de!

Diolch i'r pwyllgor, mae rhaglen y flwyddyn wedi'i pharatoi erbyn hyn. Byddwn yn cyfarfod yn yr Ystafelloedd Coco ar nos Fawrth cyntaf y mis am 7pm. Dewch i ymuno â ni os oes 'na rywbeth o ddiddordeb i chi!

4 Ebrill – *Sharon Newell – Hosbis Sant Cyndeyrn*

2 Mai – *Tracey Pierce - Helpu'r draenogod*

6 Mehefin – *Tŷ Gwynedd - Dinbych*

4 Gorffennaf – *Sue Wright – Eich llyfr chi*

5 Medi - *Graham Jones – Woody's Lodge*

3 Hydref – *Mair Roberts – Nyrsio drwy'r oesoedd*

7 Tachwedd – *Irene Henderson – Crefftau*

5 Rhagfyr – *Cinio Dolig*

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r ysgrifenyddes: janeborthwick56@gmail.com.

# Tuesday Club

Ar gyfer cyfarfod mis Mawrth, roedd yr Ystafelloedd Coco wedi'u haddurno'n lliwgar â chennin Pedr a baneri Cymru. Bu'r aelodau yn hel atgofion am ddyddiau Dewi Sant y gorffennol. Roedd sawl un yn cofio'r cystadlu brawd mewn eisteddfodau ysgol uwchradd. Clywsom yr hanes am geisio perswadio Mary Hopkin ifanc i ganu mewn eisteddfod, ac un arall am gystadlu'n rheolaidd yn erbyn Tony Jones, sef hanner y ddeuawd o Fôn, Tony ac Aloma.

Y traddodiad mewn ysgolion iau oedd i'r merched wisgo gwisgoedd Cymreig ac mewn rhai ysgolion byddai'r merched hefyd yn dod â dol mewn gwisg Gymreig. Rhannwyd atgofion am gyn-breswylydd o Lanrhaeadr, a deithiai o'i chartref yn Stoke bob Dydd Gŵyl Dewi i Lanrhaeadr am y prynhawn, yn unswydd i weld y merched yn eu gwisgoedd. Dangoswyd lluniau ac adroddwyd cerdd a ddysgwyd yn arbennig ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi – sawl blwyddyn yn ôl bellach!

Yna cawsom de prynhawn blasus a diolchwyd i Margaret Williams am ddod â'r cacennau. Tynnwyd y raffl ac atgoffwyd yr aelodau y bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 19 Ebrill. Croeso i aelodau newydd.



**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Pen blwydd hapus, Barbie Major: 100 oed ar 29 Ebrill




Cefais fy ngeni yn Cobham, Surrey, a oedd yn bentref tawel yr adeg honno. Francis Bryant, o'r cwmni gwneud matshys Bryant and May, oedd fy nhad.

Roeddwn yn un o bedair merch ac rwy'n cofio bywyd hapus iawn. Byddai dynion yn cynnau'r lampau stryd, roedd llefrith yn dod o ganiau ar geffyl a chart, ac roedd cael cyw iâr i'w fwyta yn beth moethus iawn. Bues i'n helpu yn siop y cigydd, yn athrawes yn yr Ysgol Sul ac yn aelod o Fyddin y Tir pan ddaeth yr Ail Ryfel Byd. Y llynedd roeddwn yn rhan o orymdaith Sul y Cofio yn Llundain fel un o'r ychydig ferched y tir sy'n dal yn fyw.

Priodais â milwr a chawson ni chwech o blant – dau wedi'u geni yn yr Almaen. Roedd i'n brown owl gyda'r Brownies yn yr Almaen ac yn Tripoli.

Pan oedden nhw'n byw yng Nghroesoswallt fe gawson ni flas ar Gymru ac yn ddiweddarach daethon ni i fyw i Blas Llanychan ac wedyn i Lawog Isa. Mae fy mab yn byw yn Llawog ac yn cadw golwg arna i.

Dwi'n dal i yrru ar deithiau byr ac yn mwynhau chwarae bridge. Dwi'n iach ac yn gallu mwynhau bywyd. Mae gen i bedwar ŵyr ar ddeg a saith gor-ŵyr.



# Gwybodaeth am brydau ysgol am ddim

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi croesawu'r newyddion bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid i roi taliadau prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys yn ystod gwyliau'r ysgol dros y Pasg a Sulgwyn. Mae hyn mewn ymateb i'r argyfwng costau byw.

Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i wneud trefniadau i roi'r taliadau yma ar gyfer gwyliau'r Pasg (3 Ebrill tan 14 Ebrill), wythnos Sulgwyn (29 Mai tan 2 Mehefin), a Gŵyl y Banc mis Mai a Gŵyl y Banc y coroni.

Mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i rieni / gwarcheidwaid bod y taliadau yma yn seiliedig ar fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Bydd y taliad ar gyfer gwyliau'r Pasg yn cael ei anfon ar 3ydd o Ebrill.

Mae hwn yn fater ar wahân yn llwyr i gyflwyno prydau ysgol am ddim i bob plentyn oed cynradd, sydd wedi galluogi plant Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 i gael prydau ysgol am ddim y tymor ysgol hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Gill German, Aelod Cabinet Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd:

"Rydyn ni'n croesawu'r cyhoeddiad y bydd y cyllid ychwanegol ar gael. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i rai teuluoedd yn ystod yr argyfwng costau byw. Rydyn ni eisiau sicrhau bod pob plentyn yn cael pryd maethlon a bydd y taliad yma'n helpu i wneud hynny."

Am fwy o wybodaeth, ewch i: https://www.denbighshire.gov.uk/cy/addysg-ac-ysgolion/grantiau-ac-ariannu/cinio-ysgol-am-ddim.aspx.

# Newyddion Clwb Pêl-droed LLandyrnog




Mae Clwb Pêl-droed Llandyrnog wedi cyhoeddi mae ei gadeirydd newydd yw Jimmy McNally.

'Wel, foneddigion a boneddigesau, mae wedi bod yn benderfyniad enfawr i mi gymryd yr awenau fel cadeirydd Clwb Pêl-droed Llandyrnog, ac nid ar chwarae bach y gwnes y penderfyniad.

'Ar ôl rhoi'r gorau i fod yn rheolwr am resymau personol, cynigiodd y clwb amser i mi feddwl, ond dwi'n teimlo nad oes gen i'r amser na'r meddylfryd iawn i fynd yn ôl ar y llinell ystlys ar hyn o bryd.

'Efallai fod yr awydd i reoli wedi mynd, ond fydd fy nghariad a fy angerdd tuag at y clwb byth yn marw. Dwi'n teimlo fy mod mewn cyfnod yn fy mywyd lle nad yw rheoli o ddydd i ddydd bellach yn flaenoriaeth, ond dwi'n teimlo y gallaf barhau i gynnig rhywbeth i'r clwb. Fel cadeirydd, rwy'n gobeithio y galla i ddod â rhywfaint o gymorth mawr ei angen yn ôl i Gae Nant, ambell i syniad newydd, ffres, ac ambell wyneb newydd i'r pwyllgor, gobeithio.

'Dylai'r clwb hwn fod yn galon ac enaid y gymuned fel yr oedd pan oeddwn i'n blentyn, yn cefnogi o'r tu ôl i gôl isaf Cae Nant. Dwi am ddod â'r gymuned yn ôl i'r clwb, oherwydd dydyn ni erioed wedi ei gadael, rydym yma yn eich cynrychioli chi!

'Diolch i Clive Jones am ei waith caled a'i ymroddiad dros y blynyddoedd, ac rwy'n falch ei fod yn fodlon aros ar y pwyllgor. A hoffwn hefyd roi fy nghefnogaeth lawn i Sion Morris, ein rheolwr presennol. Mae'n gweithio mor galed i wneud i'r clwb lwyddo ar y cae, a dwi'n falch ei fod yn fodlon parhau â'r ymgyrch!

'Gobeithio bydd rhai pethau cyffrous yn digwydd yn y clwb yn ystod fy nghyfnod i, ond am y tro, dwi 'mond eisiau gweld y bois yng nghrysau glas Dyrny yn gwneud eu gorau glas, a'r gymuned ar y ystlys yn rhuo'i chefnogaeth iddyn nhw, fel yr hen ddyddiau da!'

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.

## Llan Llanast

Yn Llan Llanast mis Mawrth, roedden ni'n edrych ymlaen at Sul y Mamau ac fe wnaethon ni gardiau, blodau pren a lluniau. Hefyd buon ni'n addurno bisgedi siâp calon. Clywson ni stori mam Moses yn ei roi mewn basged ac yn arnofio ar wyneb yr afon Nil i le diogel. Roedd ei fam yn ddewr iawn yn ymddiried yn Nuw i ofalu am ei babi. Roedd Miriam, chwaer Moses, hefyd yn ddewr iawn a dilynodd ei brawd i ofalu ei fod yn ddiogel. Fe wnaethon ni lafrwyn – *bulrushes* – a basged fawr helyg i'r baban Moses.

Bydd Llan Llanast mis Ebrill wythnos yn gynharach na'r arfer, oherwydd bod yr ail Sul yn ddydd Sul y Pasg. Bydd yn digwydd bnawn dydd Sul 2 Ebrill, am 3.30 fel arfer.




*Martin yn helpu i wneud y fasged*

# Dydd Gweddi Byd-eang

Merched Taiwan a baratôdd y gwasanaeth eleni. Mae'r wlad hon wedi bod yng nghanol ymrafael am rym ers sawl blwyddyn, ac mae wedi'i hynysu'n rhyngwladol ers degawdau. Mae Tsieina yn dal i honni bod Taiwan yn diriogaeth sofran iddi ac yn dechrau aflonyddu ar y wlad bron bob dydd. Ond mae'r rhan fwyaf o bobl Taiwan yn gwrthwynebu ailuno â hi.

Yn naturiol, roedd y gwasanaeth yn cynnwys llythyrau i galonogi merched sy'n wynebu dioddefaint ac anghyfiawnder ledled y byd.



### Gwasanaethau mis Ebrill yn Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 2il | 11.15 | Gwasanaeth Sul y Blodau |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 9fed | 11.15 | Cymun bendigaid y Pasg |
| 16eg | 11.15 | Boreol weddi |
| 23ain | 11.15 | Cymun bendigaid |
| 30ain | **10.30** | Gwasanaeth yr Ardal Genhadu |

### Oriau agor Swyddfa'r Post

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**

**9am–12pm, 2pm–5pm**

**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**



# Hanesion Hazel

Mae mis Ebrill yn gallu bod yn fis anwadal iawn. Mae'r clociau wedi newid, felly mae'r dyddiau'n hirach ac mae'n teimlo fel petai'r haf ar ei ffordd wrth i ni baratoi ar gyfer y tymor o'n blaenau. Mae'n adeg i gael gwared ar felan y gaeaf. Mae'n rhaid rhoi'r project 'dan do' i'w cadw, y rhai rwy wedi bod wrthi'n eu gwneud yn ystod y nosweithiau tywyll. Waeth a ydyn nhw wedi'u gorffen ai peidio, rhaid eu cadw gan fod 'y tu allan' yn galw. Ond, cyn y galla i wneud hynny, dwi wrthi fel lladd nadredd yn gweu, fel dwi wedi bod ers y Nadolig - dwsinau o gywion!



Ar ôl i fam ffrind agos i mi farw cyn y Nadolig, penderfynodd y ddwy ohonon ni barhau a'r gwaith o weu cywion i'w rhoi dros wyau Pasg, i godi arian at elusen. Roedd ffrind fy mam yn gweu'r rhain bob blwyddyn, gan godi llawer o arian i'w hoff elusen. Fe ddechreuon ni linell gynhyrchu – dwi'n gweu'r cyrff ac wedyn yn eu rhoi i fy ffrind i'w pwytho at ei gilydd ac ychwanegu pigau a wynebu i roi cymeriadau unigol iddyn nhw. Roedd y rhai cyntaf yn felyn arferol, ond roedd hyn yn didflas, felly fe fentrais i weu rhai o liwiau eithaf rhyfedd. Yn olaf, penderfynais roi cynnig ar gywion mewn lliwiau timau pêl-droed, ac roedd hynny'n boblogaidd iawn.

Y syniad i ddechrau oedd defnyddio'r holl wlân sy'n weddill ar ôl gweu rhywbeth, a dyna esbonio'r lliwiau rhyfedd. Ond roedd pobl wrth eu bodd gyda nhw ac roedden ni'n methu gweu digon ar gyfer y galw. O'r diwedd mae'r Pasg wedi dod ac rydyn ni'n gallu rhoi'n gweill i gadw, yn fodlon ein bod wedi cwblhau'r dasg,



er cof am Margaret Mayne. Bydd yr elw yn mynd at ei helusen leol ym Manceinion – Hosbis Francis House i Blant. Dwi ddim am weld cyw arall wedi'i gweu byth eto... wel, efallai ddim tan y flwyddyn nesa.

Ac i sôn am adar pluog. Rwy'n falch o ddweud bod fy ieir yn dodwy eto. Dwi'n gwybod bod angen hoe ar y merched, ond mae'r gaeaf wedi bod mor hir. Mae gen i bedair iâr newydd, dwy seren wen a dwy fron, a fydd yn ymuno â'r gweddill.

Mae'n syrpréis hyfryd bob tro i weld pwy sydd wedi dodwy'r wyau brown, gwyn hufennog, neu las. Mae cynnwrf yn yr awyr, gyda'r cwt ieir fel ffair, gyda phob un yn ceisio cael y bocs nythu gorau. Dwi wrth fy modd. Mae pob iâr yn cyhoeddi dodwy ei hwy gyda chlwc. Mae fy ieir a ddaeth o ganolfan achub hyd yn oed wedi ymuno yn yr hwyl, gan ddodwy wyau brown mawr. Maen nhw wrth eu boddau yn y cwt mawr newydd. Gan fod cawodydd Ebrill yn eitha trwm, maen nhw i gyd yn mynd dan do ar frys pan maen nhw'n teimlo dafnau'r glaw, ond maen nhw allan eto pan mae'r glaw wedi peidio, i grafu am chwyn a.a.

Mae'r chwyn yn tyfu'n gyflym iawn ar hyn o bryd o dan yr haul sy'n cynhesu. Mae eu cadw dan reolaeth yn dipyn o waith, ond dwi ddim yn poeni'n ormodol gan fod eu paill a'u neithdar yn bwydo ein gwenyn ar eu taith gyntaf allan ar ôl y gaeaf. Ac wrth gwrs, rydyn ni'n croesawu'r gwenoliaid – mae pob peth yn digwydd ym mis Ebrill.

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mawrth Cyngor Cymuned Llandyrnog

Roedd yr holl gynghorwyr yn bresennol yn y cyfarfod ynghyd â PCSO Jones o Heddlu Gogledd Cymru.

⇒ Nid oedd neb wedi gwneud cais i gael ei gyfethol ar y Cygor ac felly mae'r sedd yn parhau'n wag.

⇒ Rhoddodd PSCO Jones adroddiad a chadarnhawyd bod:

- pedair damwain ffordd wedi bod yn ystod y deuddeg mis blaenorol ar y ffordd rhwng Waen a Brynllys. Bydd y Cynghorydd M Parry yn gweld a fydd modd gosod offer monitro cyflymder dros gyfnod cyn penderfynu ar y camau nesaf.
- byrgleriaeth wedi digwydd mewn sied heb ei chloi yn yr ardal. Dywedodd PSCO Jones rhaid cloi siediau bob amser ac y dylai trigolion ystyried buddsoddi mewn technoleg gwyliadwriaeth sylfaenol, e.e. sbotoleuadau neu gloeon clap gyda larymau synhwyro symudiad, yn hytrach na'r cloeon clap traddodiadol. Efallai sefydlu grŵp WhatsApp cymdogion i rannu gwybodaeth.
- dau ddigwyddiad o gythrwfl yn ardal Llangwyfan ac mae'r heddlu yn cadw golwg ar y sefyllfa
- aelod o'r cyhoedd wedi riportio fan wen amheus yn yr ardal gyda'r gyrrwr yn cynnig gwneud gwaith garddio. Riportiwyd y mater i 101 ynghyd â'r rhif cofrestru ac mae Heddlu Gogledd Cymru yn ddiolchgar iawn am unrhyw wybodaeth am symudiadau anarferol yn yr ardal.

⇒ Trafodwyd estyniad i 6 Maes Llan, Llandyrnog, newid defnydd rhan o Fron Yw i ddarparu gwely a brecwast, a newid defnyddistablau yn y Wern, Llandyrnog i fod yn ganolfan gofalu am gŵn (cais ôl-weithredol).

⇒ Dosbarthwyd manylion cais cyn cynllunio a gyflwynwyd gan Harvey Procter ynghylch safle'r Hufenfa.

⇒ Nid yw'r arwydd rhybudd cyflymder y tu allan i'r ysgol yn gweithio ond mae ymholiadau wedi datgelu ei bod yn annhebygol y bydd arian yn cael ei ddyrannu i'w atgyweirio.

⇒ Yn dilyn ceisiadau am gymorth ariannol penderfynwyd rhoi £100 yr un i'r Tuesday Clwb, Hosbis Sant Cyndeyrn a Thŷ Gobaith.

⇒ Penderfynwyd prynu mygiau i'w dosbarthu i blant oed cynradd y pentref i nodi coroni Brenin Charles III.

⇒ Cafwyd adroddiad cynhwysfawr iawn gan Phillip Burrows, Swyddog Digidol CSDd, yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran ffibr i'r tŷ yn yr ardal a sut i symud ymlaen.

⇒ Adroddwyd bod tîm prosiect y Siop Gymunedol wedi cyflwyno cais am ragor o arian grant ac y bydd yr opsiwn cyfranddaliadau cymunedol yn cael ei lansio'n fuan.

⇒ Mae'n siomedig nodi bod rhai pobl anghyfrifol sy'n berchnogion cŵn yn rhoi bagiau baw cŵn yn y bin graean ger Pont Llundain. Bydd ymholiadau'n cael eu gwneud ond ystyriwyd ei bod yn annhebygol y byddai'r Cyngor Sir yn gosod bin baw cŵn.

Bydd y cofnodion llawn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y cygor maes o law.

Os oes gennych unrhyw fater i'w godi â'r heddlu, anfonwch e-bost at y plismon cymunedol: David.Jones4@northwalespolice.co.uk , neu ffoniwch 101 a gadewch neges iddo.

Cyn i chi ddechrau chwilio am gar newydd, stori Ffŵl Ebrill oedd yr un ar dudalen 9 am geir trydan yn y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Gawsoch chi'ch dal?!

**Argraffwyd gan Mike Neumann Printers Ltd., 41 Stryd y Dyffryn, Dinbych. 01745 814067 E-bost: neumannprinters@aol.com**